Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru

## 2020 - 21



OGL © Hawlfraint y Goron 2020 WG41353

ISBN Digidol 978-1-80082-279-5

## **Crynodeb**

Roedd 2019 yn drobwynt o ran cydnabod yr argyfwng natur cynyddol a chynyddu'r camau gweithredu dros fioamrywiaeth. Fe wnaeth Cymru ddatgan argyfwng hinsawdd hefyd.

Rydym wedi diweddaru'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur i ystyried y dystiolaeth gynyddol ynghylch maint y golled o ran bioamrywiaeth a'r cyd-destun polisi newidiol yma yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys y fframwaith deddfwriaethol a'r Polisi Adnoddau Naturiol, effeithiau disgwyliedig ymadael â'r UE, yr argyfwng ecolegol cynyddol a'r angen i ymateb ar frys i hynny ochr yn ochr â'r ymateb i'r argyfwng hinsawdd.

Mae pandemig Coronafeirws 2020 wedi rhoi pwyslais newydd ar yr angen i egluro'r blaenoriaethau brys ar gyfer bioamrywiaeth ac adferiad gwyrdd.

Mae'r cynllun diwygiedig yn cynnwys 5 thema ar gyfer gweithredu:

**Cynnal a gwella rhwydweithiau ecolegol cydnerth** – camau gofodol i sicrhau manteision i fioamrywiaeth, rhywogaethau a chynefinoedd, osgoi effeithiau negyddol a gwneud y gorau o'n llesiant.

Mae'r cynllun newydd yn adlewyrchu'r angen i weithredu er mwyn adeiladu rhwydweithiau ecolegol gadarn ar draws ein tir a môr er mwyn diogelu rhywogaethau a chynefinoedd a'u manteision, gan fynd i'r afael ag achosion sylfaenol o golli bioamrywiaeth, a thargedu ymyriadau er mwyn helpu rhywogaethau i adfer lle bo'r angen.

**Cynyddu gwybodaeth a throsglwyddo gwybodaeth; Gwireddu buddsoddiad a chyllid newydd; Uwchsgilio a'r gallu i gyflawni; Prif ffrydio, llywodraethu ac adrodd ar ein cynnydd** – camau trawsnewidiol i ddylanwadu ar ymddygiad a phenderfyniadau buddsoddi er mwyn sicrhau ein bod yn cynnal ac yn gwella bioamrywiaeth.

Mae'r cynllun yn nodi'r brys o ran cydnabod a gwerthfawrogi bioamrywiaeth wrth werthuso a gwneud penderfyniadau ar draws sectorau a phortffolios, a dangos y gwerth hwnnw trwy gymorth ar gyfer sgiliau, gallu a llywodraethu.

Mae camau gweithredu'n mynd i'r afael â'r angen i wella ein tystiolaeth a'n gwaith monitro ar gyfer y tymor hir, ac i ddeall rôl natur yn ein bywydau, ein bywoliaeth a'n llesiant.

Mae'r camau gweithredu cyfredol sydd wedi'u hariannu gan nifer o bartneriaid ledled Cymru wedi'u crynhoi mewn cynllun cyflawni CAMPUS a gaiff ei fonitro a'i adolygu'n flynyddol.

O fewn y themâu, nodwyd 5 blaenoriaeth uniongyrchol ar gyfer gweithredu pellach:

- Cysoni'r ymatebion i argyfwng yr hinsawdd â'r argyfwng bioamrywiaeth
- Mynd i'r afael â'r bwlch ariannu ar gyfer mesurau amaeth-amgylcheddol, ar ôl gadael yr UE

- Darparu cyfeiriad gofodol ar gyfer targedu camau gweithredu ar gyfer bioamrywiaeth
- Gwella cyflwr y Rhwydwaith Safleoedd Gwarchodedig
- Archwilio dulliau ariannu newydd a chynaliadwy ar gyfer gweithredu ar fioamrywiaeth.

Bydd Strategaeth Natur wreiddiol 2015 yn parhau hyd nes y caiff ei chysoni i fynd i'r afael â fframwaith ôl 2020 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol, gyda'r themâu newydd hyn yn llywio camau gweithredu drwy'r cyfnod pontio hwn.

**Cynnwys**


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad | 4 |
| 2. | Y cyd-destun presennol | 5 |
| 3. | Mabwysiadu dull integredig | 6 |
| 4. | Diweddaru'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur (NRAP) | 7 |
| 5. | Strwythur a chynnwys y NRAP wedi'i ddiweddaru | 7 |
| 6. | Nodi'r bylchau a chamau gweithredu brys yn y tymor byr | 8 |
| 7. | Sut mae'r NRAP yn cael ei lywodraethu? | 10 |

Atodiad 1: Trosolwg o waith diweddaru’r NRAP

Atodiad 2 – Crynodeb o gynnwys cynllun cyflawni’r NRAP – rhaglenni, prosiectau a bylchau a nodwyd, gan gynnwys:

Tabl 1: Themâu gweithredu’r NRAP a chynnwys cynllun cyflawni 2020-21

## 1. Cyflwyniad

Cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu Adfer Natur (NRAP) Cymru[1] yn wreiddiol ym mis Rhagfyr 2015 fel y Cynllun Adfer Natur.  Mae'n nodi sut mae mynd i'r afael â Chynllun Strategol Bioamrywiaeth Confensiwn Rhaglen Amgylchedd y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol a Thargedau Bioamrywiaeth cysylltiedig Aichi ar gyfer 2011-20 yng Nghymru [2], a dyma'r Strategaeth Bioamrywiaeth Genedlaethol a Chynllun Gweithredu ar gyfer Cymru o dan darged 17 Aichi.

**Rhan 1:** Mae **Ein Strategaeth ar gyfer Natur** yn nodi'r ymrwymiad i wrthdroi colli bioamrywiaeth yng Nghymru, a'r amcanion ar gyfer gweithredu.

Mae'n cynnwys ein huchelgais, sef:

*'Gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth, oherwydd bod iddi werth cynhenid, a sicrhau budd sy'n para i'r gymdeithas.'*

a'n hamcanion, er mwyn:

1: Ennyn a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn i fioamrywiaeth fwrw gwreiddiau yn y broses benderfynu ar bob lefel.

2: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd sydd o'r pwys mwyaf a'u rheoli'n well

3: Gwneud ein hamgylchedd naturiol yn fwy cydnerth drwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd

4: Mynd i'r afael â'r prif bwysau ar rywogaethau a chynefinoedd

5:  Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n gwaith monitro

6:  Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar waith i gyflawni'r amcanion

**Rhan 2:** Roedd **Ein Cynllun Gweithredu** yn nodi'r camau hynny a nodwyd yn benodol i gyflawni ein hamcanion i wrthdroi'r dirywiad i fioamrywiaeth.

**Rhan 3:** Mae'r **Fframwaith Adfer Natur** yn pennu'r trefniadau llywodraethu a'r partneriaethau sy'n ymwneud ag adfer natur yng Nghymru, a'r berthynas rhyngddynt.

Er bod uchelgais ac amcanion Strategaeth 2015 yn dal i sefyll, roedd angen adolygu ac ad-drefnu cynllun gweithredu Rhan 2 er mwyn rhoi ffocws a blaenoriaethu o fewn cyd-destun polisi sy'n prysur newid a'r argyfwng ecolegol sy'n datblygu.

[1] Cynllun Adfer Natur Cymru oedd yr enw gwreiddiol, ond fe'i hailenwyd er mwyn osgoi dryswch gyda'r Polisi Adnoddau Naturiol a gyhoeddwyd yn 2016.
[2] Convention on Biological Diversity - Strategic Plan for Biodiversity 2011-2020, including Aichi Biodiversity Targets

## 2. Y cyd-destun presennol - tystiolaeth, blaenoriaethau, amcanion Llywodraeth Cymru a rhwymedigaethau adrodd

Wrth ddatblygu'r fframwaith ôl-2020 ar gyfer Cynllun Strategol y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol (CBD) hyd at 2050, cydnabuwyd mai ychydig iawn o dargedau Aichi 2020 sydd wedi'u cyflawni a bod bioamrywiaeth yn dal i ddirywio.

Fe wnaeth adroddiad yr Intergovernmental Science-Policy Platform on Biodiversity and Ecosystem Services (IPBES)[3] yn 2019 ar fioamrywiaeth ac ecosystemau ddisgrifio colli bioamrywiaeth fel perygl cynddrwg â'r argyfwng hinsawdd.

Mae adroddiad interim Cyfoeth Naturiol Cymru ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol[4] yn adleisio'r sefyllfa ryngwladol:

‘Mae'r newid yn yr hinsawdd yn gyrru rhywogaethau i symud lleoliad. Gallai rhywogaethau arctig-alpinaidd o fewn cynefinoedd mynyddig ddiflannu o Gymru wrth i'w cynefinoedd gael eu colli. Pan na all planhigion a bywyd gwyllt arfordirol symud i'r tir, gall y cynnydd yn lefel y môr a mwy o erydu tir arwain at golled eang. Mae nifer y rhywogaethau estron goresgynnol, a’u cwmpas, yn debygol o gynyddu wrth i'r hinsawdd newid.

Mae pwysau amgylcheddol yn achosi dirywiadau byd-eang i fioamrywiaeth ar gyfraddau na welwyd erioed o'r blaen yn hanes dynoliaeth. Mae rhywogaethau'n diflannu ar gyfradd gyflymach.

Mae gan fyd natur ran hanfodol i'w chwarae o ran darparu bwyd, ynni, meddyginiaethau ac adnoddau genetig. Bydd y gwasanaethau ecosystem y mae cynefinoedd gwydn yn eu darparu – megis amddiffyn rhag llifogydd a gwaredu carbon deuocsid – yn cael eu colli hefyd.

Os na wneir newidiadau nawr, bydd y colledion bioamrywiaeth a'r effaith negyddol ar fuddion byd natur i bobl yn parhau.'

Yng Nghymru, er bod camau cadarnhaol wedi'u cymryd a rhai rhywogaethau nodedig yn adfer, rydym yn dal i golli bioamrywiaeth.

Fe wnaeth y Prif Weinidog nodi bioamrywiaeth a thwf amgylcheddol yn brif flaenoriaeth ar gyfer cyflawni dros weddill tymor y Senedd hon, gan ddatgan argyfwng hinsawdd ym mis Ebrill 2019.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i adferiad gwyrdd wedi pandemig Covid-19, er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd ac gwrthdroi'r dirywiad i fioamrywiaeth[5].

---

[3] Intergovernmental Science-Policy Platform on Biodiversity and Ecosystem Services
[4] https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/state-of-natural-resources-interim-report-2019/?lang=cy
[5]Er enghraifft, gweler *https://llyw.cymru/polisi-cynllunio-adferiad-covid-19*

Hefyd, bydd angen mynd i'r afael hefyd â'r bwlch llywodraethu ar ôl gadael yr UE er mwyn sicrhau egwyddorion amgylcheddol craidd a threfn lywodraethu gadarn ar gyfer yr amgylchedd a bioamrywiaeth. Mae ymadawiad Prydain o'r UE yn sbarduno polisi ffermio'r dyfodol hefyd a chymorth newydd ar gyfer Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Mae fframwaith y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol wedi 2020 i'w gyflawni hyd at 2030 yn cael ei ddatblygu hefyd a bydd yn cyflwyno nodau a thargedau i wrthdroi'r dirywiad i fioamrywiaeth. Bydd angen cysoni'r NRAP er mwyn mynd i'r afael â'r rhain a parhau i ymateb i'r dystiolaeth a'r fframwaith sy'n deillio o'r broses honno, a ohiriwyd tan ddiwedd 2021 oherwydd pandemig Covid-19.

## 3. Mabwysiadu dull integredig – sut y caiff camau bioamrywiaeth eu gweithredu yng Nghymru a sut mae'r NRAP yn rhan o hyn

Yng Nghymru, mae arfer gorau rhyngwladol – sef dull rheoli ar lefel yr ecosystem er mwyn gwrthdroi dirywiad i fioamrywiaeth – wrth wraidd deddfwriaeth allweddol. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn cyflwyno'r nodau gan gynnwys nod Cymru Gydnerth ar gyfer cyrff cyhoeddus a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 sy'n egluro’r amcan, yr egwyddorion a'r fframwaith ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy (SMNR).

Nod y Deddfau hyn yw mynd i'r afael ag achosion sylfaenol colli bioamrywiaeth a phennu gwerth a phwysigrwydd bioamrywiaeth gydol y broses o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus:

►I Lywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru, cyflawni'r fframwaith SMNR – yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR), y Polisi Adnoddau Naturiol (NRP) a'r Datganiadau Ardal – yw'r cyd-destun gweithredu lefel uchel ar gyfer mynd i'r afael â'r dirywiad mewn bioamrywiaeth.

Blaenoriaethau'r NRP yw'r blaenoriaethau cenedlaethol presennol ar gyfer ein hadnoddau naturiol, i bawb weithredu. Maen nhw'n cefnogi integreiddio bioamrywiaeth i’r broses gwneud penderfyniadau ar draws Llywodraeth Cymru a darpariaeth leol drwy ddatganiadau ardal.

Y blaenoriaethau yw:

- darparu atebion sy’n seiliedig ar natur;
- defnyddio adnoddau’n fwy effeithlon a defnyddio mwy o ynni adnewyddadwy
- gweithredu mewn ffordd sy’n seiliedig ar le.

Mae datganiadau ardal yn darparu sail dystiolaeth leol er mwyn helpu i weithredu'r blaenoriaethau hyn, a'r risgiau a'r cyfleoedd a nodir yn y Polisi Adnoddau Naturiol.

Gall sefydliadau eraill, o gyrff cyhoeddus i gyrff anllywodraethol i grwpiau cymunedol lleol, ddefnyddio'r datganiadau ardal i helpu i nodi'r camau allweddol y gallent eu cyflawni, a bydd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn defnyddio'r rhain i'w helpu i asesu llesiant eu hardal.

►Ar gyfer cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol, dylai cyflawni nod Cymru Gydnerth law yn llaw â'r chwe nod llesiant arall ysgogi'r gwaith o weithredu dros fioamrywiaeth.

►Ar gyfer awdurdodau cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i ddyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru), dylai cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaethau lywio'r gwaith o brif ffrydio camau gweithredu wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r ddeddfwriaeth hon yn dechrau dwyn ffrwyth[6,7] ond mae angen cymryd camau wedi'u targedu o hyd, ac mae partneriaid a sefydliadau eraill yn hanfodol i lwyddiant gweithredu er mwyn adfer natur.  Mae gan bawb ran i'w chwarae.

## 4. <u>Diweddaru'r NRAP</u>

Cafodd Rhan 2 yr NRAP ei adnewyddu yn ystod 2019 er mwyn:

- Integreiddio ac adlewyrchu Polisi Adnoddau Naturiol (NRP) Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ar ôl NRAP yn 2017
- Cysoni'r cynllun gweithredu yn well â'r cyd-destun presennol – y dystiolaeth ddiweddaraf, blaenoriaethau, amcanion Llywodraeth Cymru a rhwymedigaethau adrodd
- Cynnwys ystod ehangach o gamau gweithredu gan randdeiliaid ar fioamrywiaeth a gwella strwythur y cynllun cyflawni i'w wneud yn fwy CAMPUS.
- Nodi camau pellach sydd eu hangen i fynd i'r afael â phob un o'r themâu, yn y tymor byr brys a'r tymor hwy. Aseswyd y camau hyn gan gyfeirio at set o feini prawf, i'w blaenoriaethu o ran brys ac effaith.

Mae Atodiad 1 yn dangos trosolwg o'r broses ddiweddaru, gan gynnwys y meini prawf a ddefnyddir i asesu'r blaenoriaethau brys a'r camau pellach sydd eu hangen.

## 5. <u>Strwythur a chynnwys y NRAP wedi'i ddiweddaru</u>

Wrth fynd ati i ddiweddaru'r NRAP, nodwyd cyfres o newidiadau hollbwysig, gan gydnabod er mwyn adfer natur, rhaid i ni:

- adeiladu rhwydweithiau ecolegol a mosaigau gwydn ar draws ein holl diroedd a morweddau er mwyn diogelu rhywogaethau a chynefinoedd a'r manteision maen nhw'n eu darparu.

---

[6] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-01/gweithredur-polisi-adnoddau-naturiol-adroddiad-ciplun.pdf

[7] Ceir enghreifftiau o adroddiadau dyletswydd adran 6 yn https://www.biodiversitywales.org.uk/Adrodd-am-Ddyletswydd-Bioamrywiaeth

- mynd i'r afael ag achosion sylfaenol colli bioamrywiaeth, nid dim ond y symptomau
- deall rôl natur yn ein bywydau, ein bywoliaeth a'n llesiant
- buddsoddi mewn gwella ein gwaith tystiolaeth a monitro ar gyfer y tymor hir
- cydnabod a gwerthfawrogi bioamrywiaeth wrth werthuso a gwneud penderfyniadau ar draws sectorau a phortffolios
- dangos y gwerth a rown ar fioamrywiaeth drwy lywodraethu, a chymorth ar gyfer sgiliau a chapasiti

Er mwyn ymateb i'r newidiadau hollbwysig, y cyd-destun brys, ac adroddiad IPBES, mae camau gweithredu NRAP wedi'u grwpio'n bum thema sydd, gyda'i gilydd, yn mynd i'r afael ag un neu fwy o amcanion NRAP.

- **Cynnal a gwella rhwydweithiau ecolegol cydnerth**

– camau <u>gofodol</u> wedi'u targedu ar sail lleoedd i sicrhau manteision i fioamrywiaeth, rhywogaethau a chynefinoedd, lleihau effeithiau negyddol a gwneud y gorau o'n llesiant.

- **Cynyddu gwybodaeth a throsglwyddo gwybodaeth,**
- **Gwireddu buddsoddiad a chyllid newydd,**
- **Uwchsgilio a'r gallu i gyflawni,**
- **Prif ffrydio, llywodraethu ac adrodd ar ein cynnydd**

– camau <u>trawsnewidiol</u> i ddylanwadu ar ymddygiad a gwneud penderfyniadau buddsoddi i sicrhau ein bod yn cynnal ac yn gwella bioamrywiaeth.

Ar gyfer pob thema weithredu mae sawl grŵp o gamau gweithredu i sicrhau canlyniad, gweler Atodiad 2 (Tabl 1).

Mae'r camau sydd ar y gweill ar hyn o bryd i fynd i'r afael â phob un o'r rhain wedi'u crynhoi mewn cynllun cyflawni manwl sy'n cynnwys rhagor o wybodaeth CAMPUS, gan gynnwys amserlenni a chyllid, ar ffurf taenlen.

## 6. <u>Nodi'r bylchau a chamau gweithredu brys yn y tymor byr</u>

Roedd y broses ddiweddaru yn tynnu sylw hefyd at fylchau parhaus yn y ddarpariaeth ar gyfer gweithredu bioamrywiaeth. Nid oedd hon yn broses gynhwysfawr, a bydd yn cael ei hadolygu'n barhaus. Fodd bynnag, y pum blaenoriaeth a nodwyd ar unwaith ac ar frys yw:

- Cysoni'r ymatebion i'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng bioamrywiaeth

Mae angen tynnu sylw at yr argyfwng natur a'i gysoni â'r ymateb i argyfwng yr hinsawdd. Mae atebion seiliedig ar natur yn allweddol i fynd i'r afael â'r ddau fater. Er enghraifft, mae angen negeseuon clir i sicrhau ein bod yn plannu coed yn y lle iawn i sicrhau'r bioamrywiaeth fwyaf posibl a dal a storio cymaint o garbon â phosibl.

- ➢ Mynd i'r afael â'r bwlch ariannu ar gyfer mesurau amaeth-amgylcheddol ar ôl gadael yr UE.

Tra y dylai'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig sicrhau canlyniadau bioamrywiaeth, mae cynllun newydd yn dal i fod sawl blwyddyn i ffwrdd. Mae angen ymateb ar fyrder i'r angen am weithredu amaeth-amgylcheddol, mewn cydweithrediad â'r gymuned ffermio.

- ➢ Darparu cyfeiriad gofodol ar gyfer gweithredu dros fioamrywiaeth.

Mae angen rhwydweithiau ecolegol cadarn ym mhobman i greu mosaigau ledled Cymru, ond mae angen nodi 'ardaloedd cydnerth craidd' ymhellach er mwyn blaenoriaethu camau gweithredu. Mae Datganiadau Ardal yn darparu rhywfaint o'r sail i hyn, ond mae angen datblygu rhagor o waith 'mapio cyfleoedd'.

- ➢ Gwella cyflwr y Rhwydwaith Safleoedd Gwarchodedig

Mae safleoedd gwarchodedig wrth wraidd rhwydweithiau ecolegol cadarn ac mae adfer safleoedd Natura 2000 (N2K) ledled Cymru i statws cadwraeth ffafriol yn allweddol i wrthdroi'r dirywiad i fioamrywiaeth.

- ➢ Ystyried dulliau ariannu newydd a chynaliadwy

Mae'r flaenoriaeth hon yn cydnabod yr angen dybryd i ddod o hyd i ddulliau ariannu mwy cynaliadwy, gan gynnwys cyllid refeniw hygyrch ar gyfer capasiti. Mae'r flaenoriaeth hon yn bwysicach nag erioed yn dilyn effeithiau pandemig Covid-19.

Mae camau i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau hyn wedi dechrau cael eu nodi a'u datblygu drwy Grŵp Gweithredu'r NRAP, grwpiau adfer Covid ac ar draws mecanweithiau polisi ehangach. Bydd camau gweithredu y cytunwyd arnynt a'u hariannu yn cael eu hychwanegu at gynllun cyflawni'r NRAP.

Mae'r meysydd pellach a nodwyd ar gyfer **camau gweithredu brys yn y tymor byr** yn cynnwys:

- Gweithio gyda datblygwyr i ddeddfu Polisi Cynllunio a dangos cynnydd
- Meithrin gallu a sgiliau darparu ar draws pob sector
- Cynyddu prosiectau natur ar raddfa tirwedd

Nodwyd yr angen am **gamau gweithredu brys ond tymor hwy** hefyd gan gynnwys:

- Addysg amgylcheddol i gysylltu pobl a natur mewn ffordd gydol oes,
- Parhau i fynd i'r afael â rhywogaethau estron goresgynnol,
- Archwilio a datblygu technegau prisio bioamrywiaeth newydd e.e. prisio drwy Lyfr Gwyrdd Cymru

Caiff camau gweithredu blaenoriaeth eu monitro, eu hadolygu'n barhaus a'u dwysáu yn ôl yr angen.

## 7. <u>Sut mae'r NRAP yn cael ei lywodraethu?</u>

Mae Grŵp Gweithredu'r NRAP yn parhau i oruchwylio'r NRAP a'r gwaith o'i gyflawni. Fodd bynnag, wrth i fioamrywiaeth gael ei phrif ffrydio a'i chynnwys mewn camau gweithredu ar draws sectorau ehangach, mae angen adolygu ei rôl, ei llywodraethu a'i haelodaeth er mwyn:

- nodi a datblygu ffyrdd mwy cydweithredol a chosteffeithiol o hyrwyddo adferiad natur h.y. prif ffrydio bioamrywiaeth;
- hyrwyddo mwy o berchnogaeth, gan gynnwys ariannu, camau gweithredu gan y gymuned gyfan gan gynnwys busnesau, tirfeddianwyr a'r cyhoedd; gan sectorau eraill
- datblygu ffyrdd newydd o weithio sy'n symud oddi wrth ddibynnu ar gyllid prosiect tymor byr (sy'n canolbwyntio ar rywogaethau penodol) i arferion cynaliadwy tymor hwy;

Bydd adolygiad o'r Fframwaith Adfer Natur a Chylch Gorchwyl y Grŵp Gweithredu yn cael ei gynnal i sicrhau eu bod yn effeithiol i gyflawni'r nodau hyn.

# Atodiad 1: Trosolwg o waith diweddaru'r NRAP

## Cynllun Adfer Natur 2015

Strategaeth a Chynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Cenedlaethol i fynd i'r afael â thargedau Cynllun Strategol CBD ac Aichi:

**Amcanion:**

**Amcan 1:** Ennyn a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn i fioamrywiaeth ymwreiddio yn y broses benderfynu ar bob lefel.

**Amcan 2:** Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd sydd o'r pwys mwyaf a'u rheoli'n well.

**Amcan 3:** Gwneud ein hamgylchedd naturiol yn fwy cydnerth drwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd.

**Amcan 4:** Mynd i'r afael â'r prif bwysau ar rywogaethau a chynefinoedd.

**Amcan 5:** Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n gwaith monitro.

**Amcan 6:** Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar waith i gyflawni'r amcanion

## Diweddaru'r NRAP 2019

**Sbardunwyr polisi:**

- Blaenoriaethau'r Cynllun Adnoddau Naturiol a chenedlaethol:
  - Cyflawni atebion seiliedig ar natur
  - Defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon a defnyddio mwy o ynni adnewyddadwy
  - Dulliau sy'n seiliedig ar leoedd
- Ymadael â'r UE
- Datgan argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur sy'n cynyddu
- Datblygu fframwaith y Confensiwn Amrywiaeth Biolegol ôl 2020

**Sbardunwyr tystiolaeth:**

- Asesiad byd-eang IPBES
- Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol
- Dangosyddion bioamrywiaeth y DU
- Sefyllfa Byd Natur a SoNaRR interim

## Themâu Gweithredu 2020-21

DS. Mae'r themâu hyn yn bodloni amcanion NRAP lluosog

**Cynnal a gwella rhwydweithiau ecolegol cydnerth (rhwydweithiau natur).**

**Cynyddu gwybodaeth a throsglwyddo gwybodaeth.**

**Gwireddu buddsoddiad a chyllid newydd.**

**Uwchsgilio a'r gallu i gyflawni.**

**Llywodraethu, ffrydio ac adrodd ar ein cynnydd.**

## Meini prawf adolygu IG ar gyfer gweithredu brys

- Brys/ar ymyl y dibyn – yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol
- Pellgyrhaeddol, graddfa Cymru gyfan
- Canolbwyntio ar weithredu – rhywbeth y gall Grŵp Gweithredu'r NRAP weithredu arno'n effeithiol
- Meithrin gallu ac arloesi'r sector, gan gynnwys drwy gydweithio
- Mynd i'r afael â'r prif bwysau seiliedig ar dystiolaeth
- Canolbwyntio ar wella cydnerthedd ecosystemau gan sicrhau manteision niferus
- Grymuso ac ennyn brwdfrydedd

## Blaenoriaethau brys a nodwyd

- Cysoni'r ymatebion i'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng bioamrywiaeth.
- Mynd i'r afael â'r bwlch ariannu ar gyfer mesurau amaeth-amgylchedd, ar ôl gadael yr UE.
- Darparu cyfeiriad gofodol ar gyfer gweithredu dros fioamrywiaeth.
- Gwella cyflwr y Rhwydwaith Safleoedd Gwarchodedig .
- Ystyried dulliau ariannu newydd a chynaliadwy.

## Camau gweithredu i'w dwyn ymlaen ar unwaith:

- Cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu, a negeseuon allweddol.
- Hyrwyddo atebion seiliedig ar natur i fynd i'r afael â newid hinsawdd a cholli bioamrywiaeth, yn ogystal â darparu manteision lluosog.
- Gwaith cyd-gynhyrchu ar ddatblygu Cynllun Ffermio Cynaliadwy
- Mapio cyfleoedd ar gyfer rhwydweithiau cynefinoedd
- Datganiadau Ardal
- Cyllid SMS N2K a thymor hwy
- Ailsefydlu grŵp Taliad am Wasanaethau Ecosystem a Mwy
- Cynlluniau cadernid ariannol adferiad gwyrdd wedi Covid-19
- Tasglu Bioamrywiaeth

**Atodiad 2 – Crynodeb o gynnwys cynllun cyflawni'r NRAP – rhaglenni, prosiectau a bylchau a nodwyd**

Yn ystod y broses o adnewyddu'r NRAP, cafodd camau gweithredu a ariennir ar hyn o bryd sy'n cyfrannu at amcanion NRAP ledled Cymru a gan nifer o bartneriaid, eu coladu a'u grwpio o fewn y themâu gweithredu.

Mae'r rhestr hon o gamau gweithredu a ariennir ar hyn o bryd wedi'i chynnwys yng nghynllun cyflawni'r NRAP, prif daenlen, ynghyd â manylion cyllid, amserlenni, allbynnau a monitro. Nid yw'n gynllun cyflawn eto, a bydd coladu'r camau gweithredu'n parhau, gan roi darlun mwy cyflawn o'r camau gweithredu, y cyllid a'r effaith bresennol.

Caiff y cynllun cyflawni ei adolygu'n flynyddol a bydd bylchau pellach yn y ddarpariaeth yn cael eu nodi a'u dwysáu i fynd i'r afael â hwy.

Bydd fframwaith monitro yn cael ei roi ar waith ochr yn ochr â'r cynllun cyflawni.

Mae enghreifftiau o gamau'r cynllun cyflawni wedi'u grwpio a'u rhestru fel y dangosir yn Nhabl 1.

**Tabl 1: Themâu gweithredu NRAP a chynnwys cynllun cyflawni 2020-21**

| **Camau gweithredu wedi'u diweddaru ar gyfer bioamrywiaeth ac adfer natur yng Nghymru:** | **GWEITHREDU GOFODOL** |
|---|---|
| - Cyflawni ein huchelgais o *'wrthdroi dirywiad i fioamrywiaeth, oherwydd bod iddi werth cynhenid, a sicrhau budd sy'n para i'r gymdeithas.'*<br><br>- Canolbwyntio camau gweithredu ar themâu blaenoriaeth i gyflawni amcanion Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru | **Cynnal a gwella rhwydweithiau ecolegol cydnerth (rhwydweithiau natur)** (er mwyn gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth ac addasu i newid yn yr hinsawdd)<br>- Adfer a chynnal y rhwydwaith safleoedd gwarchodedig<br>- Adfer a chreu cynefin y tu allan i safleoedd gwarchodedig er mwy creu rhwydweithiau natur a mosaigau<br>- Cynnal a gwella rhywogaethau sydd o'r pwys mwyaf i Gymru<br>- Mynd i'r afael â phwysau uniongyrchol ar rwydweithiau ecolegol cydnerth e.e. llygredd, newid yn yr hinsawdd a rhywogaethau estron goresgynnol.<br>- Cynnal a gwella'r sail dystiolaeth ofodol ar gyfer sefyllfa a dosbarthiad bioamrywiaeth yng Nghymru<br>- Nodi a rhannu'r blaenoriaethau gofodol ar gyfer gweithredu |

| **GWEITHREDU TRAWSNEWIDIOL** | | |
|---|---|---|
| **Cynyddu gwybodaeth a throsglwyddo gwybodaeth**<br>- Sefydlu'r achos dros weithredu a datblygu polisi<br>- Olrhain newidiadau a thueddiadau<br>- Codi ymwybyddiaeth drwy gyfathrebu, ymgyrchoedd a darparu cyngor ac arweiniad<br>- Defnyddio dulliau trosglwyddo gwybodaeth i godi ymwybyddiaeth a rhannu negeseuon allweddol<br>- Gwella cysylltiad corfforol pobl â natur | **Gwireddu buddsoddiad a chyllid newydd**<br>- Gwireddu a chynyddu buddsoddiad preifat<br>- Sbarduno cyllid cyhoeddus traws-sectoraidd<br><br>**Uwchsgilio a'r gallu i gyflawni**<br>- Cynyddu'r capasiti i weithredu dros fioamrywiaeth<br>- Gwella gallu, hyfforddiant a sgiliau bioamrywiaeth | **Prif ffrydio, llywodraethu ac adrodd ar ein cynnydd**<br>- Prif ffrydio bioamrywiaeth ar draws gwaith polisi a gwneud penderfyniadau<br>- Gwella dulliau llywodraethu a thryloywder ar gyfer gweithredu bioamrywiaeth<br>- Cyfrannu at bolisi a dulliau cyflawni'r DU ac yn fyd-eang |

## GWEITHREDU GOFODOL

### Thema: Cynnal a gwella rhwydweithiau ecolegol cydnerth (rhwydweithiau natur)

Mae rhwydweithiau ecolegol cydnerth yn hanfodol ar gyfer adfer natur.  Rhwydweithiau o gynefinoedd mewn cyflwr ecolegol da yw'r rhain, sy'n cysylltu safleoedd gwarchodedig a llecynnau eraill cyfoethog o ran bioamrywiaeth ledled y dirwedd ehangach, gan ddarparu'r budd mwyaf posibl i fioamrywiaeth a llesiant.  Mae gan rwydweithiau natur o'r fath ecosystemau cadarn iach, neu'r potensial i fod felly, sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau ecosystem pwysig yn ogystal â chaniatáu i rywogaethau symud ar draws tirweddau mewn ymateb i newid yn yr hinsawdd. Dylai'r rhwydweithiau hyn fod yn **amrywiol,** yn ddigon mawr ac **eang,** mewn **cyflwr** gweithredol da ac yn rhan o fosaigau **cysylltiedig**, er mwyn galluogi rhywogaethau a chynefinoedd i **addasu** i darfu a newid.

Mae rhwydweithiau ecolegol cadarn yn allweddol i gyflawni ar gyfer bioamrywiaeth a newid yn yr hinsawdd, a dylai atebion seiliedig ar natur i fynd i'r afael â'r ddwy her gyfrannu lle bynnag y bo modd at gynnal a gwella'r rhwydweithiau natur hyn.

---

- **Adfer a chynnal y rhwydwaith safleoedd gwarchodedig**

Mae'r prosiectau a'r rhaglenni yn cynnwys:

- Rhaglen Safleoedd Arbennig, gan gynnwys gweithredu Cynlluniau Gweithredu Thematig SAC, a rheoli SoDdGA
- Ardaloedd Morol Gwarchodedig - rheoli rhwydwaith
- Cwblhau'r Rhwydwaith Safleoedd Morol Gwarchodedig
- Cyflawni cynllun gweithredu rheoli'r MPA
- Prosiectau'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy
- Prosiectau LIFE

Mae angen cymryd camau pellach i:

- sicrhau bod safleoedd gwarchodedig yn cyflawni statws cadwraeth ffafriol ledled y rhwydwaith.

---

- **Adfer a chreu cynefin y tu allan i safleoedd gwarchodedig er mwy creu rhwydweithiau natur a mosaigau**

Mae rhaglenni a phrosiectau'n cynnwys:
  - Cynllun Gweithredu Morol
  - System Cynllunio Defnydd Tir
  - Menter 'Coridorau Gwyrdd ar Rwydwaith Cefnffyrdd a Thraffyrdd Llywodraeth Cymru'
  - Creu cynefin e.e. prosiect morwellt
  - Rhaglen mawndiroedd
  - Rheoli Ystad Goed Llywodraeth Cymru
  - Cynlluniau Glastir
  - Prosiectau Partneriaeth Natur Leol
  - Cynlluniau rheoli basnau afonydd
  - Prosiectau adfer afonydd
  - Prosiectau Caru Gwenyn a Lleoedd Lleol ar gyfer Natur
  - Prosiectau gwella cynefinoedd ar raddfa dalgylch seiliedig ar leoedd CNC
  - Cynlluniau Adfer Cynefinoedd Pysgod
  - B-Lines

Mae angen cymryd camau pellach i:

- ddarparu mwy o brosiectau ar raddfa tirwedd a phrosiectau sy'n cysylltu cynefinoedd daearol a morol
- sicrhau gorchudd ehangach ledled Cymru – gan arwain at fosaigau o ecosystemau cydnerth
- sicrhau bod rhwydweithiau natur yn cael eu darparu drwy'r cynllun Ffermio Cynaliadwy a'r Fforest Genedlaethol

------------------------------------------------------------------------------------------------------------

- **Cynnal a gwella rhywogaethau sydd o'r pwys mwyaf i Gymru oherwydd eu gwerth cynhenid a sicrhau cadernid ecosystemau**

Mae rhaglenni a phrosiectau'n cynnwys:

- Rhaglenni/gwaith rhywogaethau a warchodir Cyfoeth Naturiol Cymru
- Camau gweithredu cyrff anllywodraethol ar rywogaethau, gan gynnwys gweithredu dros loÿnnod byw, adar, ystlumod, planhigion, mamaliaid, anifeiliaid di-asgwrn-cefn
- Cam 2 cais am arian LIFE ar gyfer cynllun y gylfinir y DU
- Gweithredu is-ddeddfau pysgodfeydd salmonid newydd a datblygu'r cynllun gweithredu ar gyfer eogiaid a brithyll môr
- Prosiect 'Back from the Brink' Cynllun Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant yng Nghymru (ENRaW)
- Rhaglenni gweithredu brys e.e. ar gyfer y gylfinir, maelgi
- Cynllun Gweithredu ar gyfer Peillwyr:
- Cynllun Cadwraeth ar gyfer Gwiwerod Coch yng Nghymru
- Camau gweithredu rhywogaethau wedi'u targedu Glastir Uwch
- Ymgyrch Acorn Antic

Mae angen cymryd camau pellach i:

- Gwblhau'r adolygiad adran 7 o rywogaethau a chynefinoedd sydd o'r pwys mwyaf i Gymru
- Mwy o gamau gweithredu dros bryfed

------------------------------------------------------------------------------------------------------------

- **Mynd i'r afael â phwysau uniongyrchol ar rwydweithiau ecolegol cydnerth e.e. llygredd, newid yn yr hinsawdd a rhywogaethau estron goresgynnol**

Mae rhaglenni a phrosiectau'n cynnwys:

- Rheoliadau EIA (Amaethyddiaeth)
- Camau gweithredu Grŵp INNS WBP
- Cynllun Ymchwilio i Ddigwyddiadau Bywyd Gwyllt Cymru
- Polisi Plaladdwyr
- PestSmart
- Prosiect dŵr hen byllau mwyngloddio segur
- Prosiect Rhwydwaith Ecolegol Gwydn Cymru (WaREN) 2
- Rheoli effaith ceirw
- Arolygu a rheoleiddio iechyd planhigion
- Camau gweithredu'r strategaeth *Phytophthera ramorum*
- Action Oak
- Observatree
- Cynllun Gweithredu Rheoli Wiwerod Llwyd (GSMAP)
- Partneriaeth Moroedd Glân

Mae angen cymryd camau pellach i:

- Cynyddu'r ddarpariaeth i fynd i'r afael ag INNS

----------------------------------------------------------------------------------------------------------

- **Cynnal a gwella'r sylfaen dystiolaeth ofodol ar gyfer dosbarthu a chyflwr bioamrywiaeth yng Nghymru**

Mae rhaglenni a phrosiectau'n cynnwys:

- Goruchwylio a monitro morol
- Cynlluniau cenedlaethol gwyliadwriaeth a monitro daearol: adar, ystlumod, glöynnod byw, planhigion

- Prosiectau gwyddoniaeth dinasyddion
- Ymchwil coedwigoedd - Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol - Adnodd mesur cyflwr coedwigoedd
- Ardaloedd Planhigion Pwysig
- Rhaglen Moroedd y DU
- Cofnodion ad hoc a symud data Canolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol
- ERAMMP
- Asesu cyflwr sylfaenol safleoedd gwarchodedig Cyfoeth Naturiol Cymru
- System arolwg yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- Data monitro ENRaW,
- Rhaglen Monitro Morol

Mae angen cymryd camau pellach i:

- Baratoi data datblygwyr

---

- **Nodi a rhannu'r blaenoriaethau gofodol ar gyfer gweithredu**

Mae rhaglenni a phrosiectau'n cynnwys:

- Datganiadau Ardal
- Fframwaith Datblygu Cenedlaethol
- Asesiadau Seilwaith Gwyrdd
- Atlas Cymru Fyw
- Tystiolaeth ofodol Glastir
- Cynlluniau Adnoddau Coedwigoedd i nodi coetiroedd a chynefinoedd a chysylltedd eraill drwy rodfeydd, parthau glannau'r afon

Mae angen cymryd camau pellach i:

- adeiladu ar Ddatganiadau Ardal er mwyn nodi blaenoriaethau lefel genedlaethol ar gyfer rhwydweithiau ecolegol cydnerth, drwy fapio cyfleoedd a sicrhau'r peth iawn yn y lle iawn

----------------------------------------------------------------------------------------------------------------

**CAMAU TRAWSNEWIDIOL**

**Thema: Cynyddu gwybodaeth a throsglwyddo gwybodaeth**

Mae'r thema hon yn golygu deall yr hyn sy'n digwydd i fioamrywiaeth yn ehangach a rôl rhwydweithiau ecolegol cydnerth, adeiladu'r achos dros weithredu ac annog newid ymddygiad.  Mae'n ymwneud hefyd â chynyddu ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth a'i phwysigrwydd, drwy gyfathrebu a chamau ymarferol.

----------------------------------------------------------------------------------------------------------------

- **Sefydlu a chynnal yr achos dros weithredu a datblygu polisi**

Mae rhaglenni a phrosiectau'n cynnwys:

  - Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol
  - Sefyllfa Byd Natur
  - Rhaglen gwyddor y môr
  - Strategaeth Gwyddoniaeth ac Arloesi - Ymchwil Coedwigoedd
  - Llwyfan Amgylchedd Cymru
  - Rhestr Goedwigoedd Genedlaethol
  - Cynlluniau Rheoli Basn Afonydd (Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr)

- Polisi Cynllunio Cymru
- Cadernid ecosystemau ac adfer grŵp T ac F
- Partneriaethau ymchwil cyrff anllywodraethol/academaidd
- Prosiect BEERN
- Porth INNS Cymru
- Prosiect Rhwydwaith Ecolegol Gwydn Cymru (WaREN) 1
- Cydlynu plâu a chlefydau planhigion y DU
- Ymgysylltu â rhaglen ymchwil a datblygu Defra

Mae angen cymryd camau pellach i:

- Dynnu sylw at yr argyfwng natur a'i gysoni â'r ymateb i'r argyfwng hinsawdd. Er enghraifft, mae angen negeseuon clir i sicrhau nad yw gwaith plannu coed er mwyn lliniaru newid yn yr hinsawdd yn niweidiol i fioamrywiaeth a'r broses dal a storio carbon.

------------------------------------------------------------------------------------------------------------

- **Olrhain newid a thueddiadau drwy fonitro a dangosyddion**

Mae rhaglenni a phrosiectau'n cynnwys:

- Dangosyddion cenedlaethol WFG
- Dangosydd Bioamrywiaeth y DU
- Datblygu dangosyddion SoNaRR
- Dangosyddion Coetiroedd i Gymru
- Dangosyddion Perfformiad Allweddol Prosiect SMS
- Prosiect Safleoedd Sentinel ar gyfer iechyd planhigion
- Prosiect Gwerthuso Sylfaenol SSSI

Mae angen cymryd camau pellach i:

- ariannu Rhaglen Monitro Safleoedd Daearol Gwarchodedig
- nodi set gyson a chynhwysfawr o fesurau NRAP

-------------------------------------------------------------------------------------------------------------

- **Codi ymwybyddiaeth drwy gyfathrebu, ymgyrchoedd a darparu cyngor ac arweiniad**

Mae rhaglenni a phrosiectau’n cynnwys:

  - Canllawiau'r grŵp Gorchwyl a Gorffen Adran 6
  - Fforwm Bioamrywiaeth a Chynllunio
  - Cynrychioli aelodau CNC/IG ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
  - Prosiect hyrwyddwyr rhywogaethau Cyswllt Amgylchedd Cymru
  - Wythnos Natur Cymru
  - Iechyd Planhigion a Choed yn y Sioe Fawr, Llanelwedd ac eraill
  - Blwyddyn Ryngwladol Iechyd Planhigion 2020
  - Wythnos Genedlaethol Iechyd Planhigion
  - Ymgyrch 'Don't risk it'
  - Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol

Mae angen cymryd camau pellach i:

- Weithio gyda datblygwyr i ddeddfu'r Polisi Cynllunio a dangos cynnydd

-------------------------------------------------------------------------------------------------------------

- **Defnyddio dulliau trosglwyddo gwybodaeth i godi ymwybyddiaeth a rhannu negeseuon allweddol**

Mae rhaglenni a phrosiectau’n cynnwys:

  - Camau gweithredu'r Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm a Chyswllt Ffermio
  - Gwefan WBP a Phartneriaethau Natur Lleol
  - Ecoysgolion
  - Cynllun Caru Gwenyn
  - Cynhadledd WBP/Adfer Natur
  - Porth Cynllunio Morol
  - Prosiectau SMS
  - Gwefan UK Forest Standard
  - Ymgysylltu â rhanddeiliaid y Fforest Genedlaethol

Mae angen cymryd camau pellach i:

- Ystyried creu consortiwm i ddarparu cyngor ecolegol
- Gwella addysg amgylcheddol i gysylltu pobl a natur mewn ffordd gydol oes

------------------------------------------------------------------------------------------------------------

- **Gwella cysylltiad corfforol pobl â natur**

Mae rhaglenni a phrosiectau’n cynnwys:

  - Canolfannau ymwelwyr
  - Dysgu yn yr awyr agored
  - Cynllun Caru Gwenyn
  - Prosiect Profiad Llyn Efyrnwy

- Archwilwyr Naturiol
- Ailddatblygu Canolfan Ymwelwyr Ynys Lawd
- Rhoi Cartref i Natur

Mae angen cymryd camau pellach i:

- Gynyddu addysg amgylcheddol i gysylltu pobl a natur mewn ffordd gydol oes

---------------------------------------------------------------------------------------------------------------

**Thema: Gwireddu buddsoddiad a chyllid newydd**

Mae'r thema hon yn ymwneud â phrisio bioamrywiaeth yn briodol er ein llesiant, a'r cysylltiad â denu ffynonellau newydd o fuddsoddiad cyhoeddus a phreifat, fel rhan o brif ffrydio darpariaeth bioamrywiaeth.

- **Gwireddu a chynyddu buddsoddiad preifat**

Mae rhaglenni a phrosiectau'n cynnwys:

- Codau mawnogydd a choetiroedd
- Partneriaethau cyrff anllywodraethol gyda'r sector preifat e.e. Iceland, Coke, Tesco
- Contract IUCN
- Prosiectau SMS ac ENRaW gydag uchelgeisiau ysgogi canolog PES
- Fforest Genedlaethol

Mae angen cymryd camau pellach i:

- archwilio dulliau o ddefnyddio arian preifat i ategu arian cyhoeddus drwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, a sicrhau bod yr adolygiadau ffermydd cynaliadwy yn ystyried gwerth bioamrywiaeth

- treialu dulliau prisio integredig yng nghyd-destun Cymru

-----------------------------------------------------------------------------------------------------------

- **Sbarduno cyllid cyhoeddus traws-sectoraidd**

Mae rhaglenni a phrosiectau’n cynnwys:

  - Cronfa Dreftadaeth y Loteri
  - Cyllid traws-lywodraeth Llywodraeth Cymru ar gyfer bioamrywiaeth – proses gyllidebu strategol

Mae angen cymryd camau pellach i:

- Ddatblygu dulliau prisio ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus i gyfrif am werth hirdymor bioamrywiaeth ac 'ôl troed bioamrywiaeth' neu ddatblygu Llyfr Gwyrdd i Gymru
- Asesiad Risg Cynaliadwyedd ar gyfer caffael cyhoeddus i gyfrif am fioamrywiaeth
- Cynllun cyfnewid EMFF

-----------------------------------------------------------------------------------------------------------

<u>**Thema: Uwchsgilio a'r gallu i gyflawni**</u>

Mae'r thema hon yn golygu sicrhau bod gan Gymru y capasiti a'r gallugrwydd i gyflawni bioamrywiaeth.

-----------------------------------------------------------------------------------------------------------

- **Cynyddu'r gallu i weithredu dros fioamrywiaeth**

Mae rhaglenni a phrosiectau’n cynnwys:

- Nawdd Cyfoeth Naturiol Cymru
- Nawdd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru
- Cyllid prosiect ENRaW, yn enwedig Partneriaethau Natur Lleol Cymru
- Cyllid prosiect SMS

Mae angen cymryd camau pellach i:

- sicrhau bod gan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ddigon o adnoddau i helpu ffermwyr a rheolwyr tir eraill i weithio mewn gwahanol ffyrdd

---

- **Gwella gallu, hyfforddiant a sgiliau bioamrywiaeth**

Mae rhaglenni a phrosiectau'n cynnwys:

- Peilot prentisiaethau coedwigaeth
- Dyfodol Disglair
- Cyllid prosiect ENRaW e.e. Partneriaethau Natur Lleol Cymru
- Cyllid prosiect SMS
- Diwygio'r cwricwlwm
- Prosiect Tyfu
- Cymorth Cofnodion Amgylcheddol Cymru (LERC) i gofnodwyr sirol gwirfoddol

Mae angen cymryd camau pellach i:

- Fynd i'r afael â cholli capasiti ac arbenigedd ecolegol yng Nghymru

- Uwchsgilio i gyflwyno cynigion ar gyfer hunanasesu ffermwyr er mwyn sicrhau canlyniadau amgylcheddol i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy
- Cynyddu addysg amgylcheddol i gysylltu pobl a natur mewn ffordd gydol oes

---------------------------------------------------------------------------------------------------------

**<u>Thema: Llywodraethu, prif ffrydio ac adrodd ar ein cynnydd</u>**

Mae'r thema hon yn adlewyrchu'r angen i gynyddu cefnogaeth camau bioamrywiaeth a'u tryloywder ledled y llywodraeth a'r sectorau.  Mae'n cyfrannu at godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o bwysigrwydd bioamrywiaeth a hyd a lled y camau gweithredu ar draws pob sector yng Nghymru.

---------------------------------------------------------------------------------------------------------

- **Prif ffrydio bioamrywiaeth ar draws gwaith polisi a gwneud penderfyniadau**

Mae rhaglenni a phrosiectau’n cynnwys:

  - Gweithredu a gwerthuso dyletswydd adran 6 ar draws y sector cyhoeddus
  - Tasglu Bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru

Mae angen cymryd camau pellach i:

- Brif ffrydio darpariaeth bioamrywiaeth ar draws sectorau
- Darparu strwythur llywodraethu clir sy'n gysylltiedig â mecanweithiau cyflawni'r llywodraeth
- Sicrhau bod dyfarniadau a chynlluniau achredu yn addas i'r diben er mwyn cynnal a gwella bioamrywiaeth

---------------------------------------------------------------------------------------------------------

- **Gwella llywodraethu a thryloywder ar gyfer gweithredu bioamrywiaeth ledled Cymru**

Mae rhaglenni a phrosiectau'n cynnwys:

- Rhaglen Bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru
- Gwaith Llywodraethu ac Egwyddorion Amgylcheddol ar ôl gadael yr UE

Mae angen cymryd camau pellach i:

- Gynhyrchu adroddiad blynyddol Adfer Natur pwrpasol, gan ddefnyddio system goleuadau traffig – RAG, cerrig milltir sy'n cydnabod oedi o ran amser
- Diweddaru'r Fframwaith Adfer Natur
- Cysoni a diweddaru'r NRAP ochr yn ochr â fframwaith CBD ar ôl 2020

--------------------------------------------------------------------------------------------------------

- **Cyfrannu at bolisi a dulliau cyflawni'r DU ac yn fyd-eang**

Mae rhaglenni a phrosiectau'n cynnwys:

- Grŵp Bioamrywiaeth 4 Gwlad y DU
- Fframwaith bioamrywiaeth y DU
- Regions4

Mae angen cymryd camau pellach i:

- Gyfrannu astudiaethau polisi ac achos Cymru at ddatblygu polisi bioamrywiaeth byd-eang

--------------------------------------------------------------------------------------------------------